

**MENTER AR GYFER  
CADWRAETH NATUR CYMRU**



**INITIATIVE FOR NATURE  
CONSERVATION CYMRU**

## Swyddog Cadwraeth - Hysbyseb Swydd

**Oriau Gwaith - Pedwar diwrnod / 28 awr yr wythnos**

**Tymor – Cyfnod Penodol – tair blynedd**

**Cyflog - £27,000 (Pro-rata)**

**Lleoliad y Rôl** – Lleoliadau amrywiol yn ucheldiroedd Morgannwg (blaenddyfroedd Cymoedd Afan, Rhondda a Chynon). Hefyd yn gweithio gartref ac yn swyddfa INCC yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Diolch i gyllid gan Gronfa Weledigaeth Pen-y-Cymoedd, mae INCC eisiau penodi Swyddog Cadwraeth i oruchwylio ein prosiect cadwraeth Llygod Pengrwn y Dŵr ucheldirol tair blynedd yn ucheldiroedd Morgannwg, De Cymru.

Bydd y prosiect cadwraeth ac ymchwil cymunedol hwn yn canfod ac yn mapio poblogaethau a chynefinoedd Llygod Pengrwn y Dŵr yn ardal y prosiect yn ogystal ag asesu sut mae Llygod Pengrwn y Dŵr yn gwasgaru trwy'r dirwedd rhwng poblogaethau. Mae ein cynefinoedd ucheldirol yn parhau i fod yn un o'n cyfleoedd gorau ni i achub Llygod Pengrwn y Dŵr rhag difodiant yng Nghymru a rhagwelir y bydd y prosiect hwn yn creu strategaeth ar gyfer cadwraeth Llygod Pengrwn y Dŵr yn y dyfodol ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr ucheldir Cymru.

Mae cyfranogiad ac ymgysylltu gan gymunedau lleol a gwirfoddolwyr yn allweddol i'r prosiect. Mae'n bwysig bod cymunedau o fewn y prosiect yn gallu cymryd rhan yn y prosiect yn ogystal â chael cyfleoedd i gael eu hysbrydoli gan eu tirwedd ucheldirol a'i bywyd gwyllt.

Bydd y ceisiadau'n cau am hanner dydd ar ddydd Llun 29<sup>ain</sup> Ebrill 2024

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â [rob.parry@incc.wales](mailto:rob.parry@incc.wales)



Cronfa Gymunedol Fferm Wynt  
**PEN Y CYMOEDD**  
Wind Farm Community Fund CIC

# Disgrifiad Swydd

## Manylion y Swydd

|                 |   |
|-----------------|---|
| Teitl y Swydd:  | Swyddog Cadwraeth   |
| Man Gweithio:   | Gweithio mewn lleoliadau gwahanol o fewn ardal fferm wynt Pen y Cymoedd, ac o gartref. Prif Swyddfa INCC d/o Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, Sir Gaerfyrddin. |
| Yn atebol i:    | Prif Swyddog Gweithredol.   |
| Yn gyfrifol am: | Gwirfoddolwyr a Chontractwyr.   |

## Trosolwg o'r Prosiect

Diolch i gyllid gan Gronfa Weledigaeth Pen y Cymoedd, bydd INCC yn cynnal ymchwil hanfodol a chadwraeth natur gymunedol ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr yn ucheldiroedd Morgannwg (blaenddyfroedd cymoedd Afan, Nedd, Ogwr, Rhondda a Chynon).

Mae tirweddau ucheldirol fel ardal y prosiect yn parhau i fod yn un o'n cyfleoedd olaf ni i achub Llygoden Bengron y Dŵr rhag diflannu yng Nghymru. Po fwyaf rydyn ni'n ei wybod am ecoleg Llygoden Bengron y Dŵr yn y tirweddau yma, y gorau fydd ein gwaith cadwraeth ni ar eu cyfer yn y dyfodol. Bydd y prosiect yn gweithio gyda chymunedau lleol, gwirfoddolwyr a myfyrwyr i nodi a mapio poblogaethau o Lygod Pengrwn y Dŵr o fewn ardal y prosiect. Unwaith y byddant yn hysbys, bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i ddeall pa mor gysylltiedig yw'r gwahanol boblogaethau â'i gilydd, yn ogystal â sefydlu sut mae unigolion o boblogaethau'n gwasgaru drwy'r dirwedd. Yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau academiaidd a myfyrwyr i gynnal ymchwil, bydd y prosiect hefyd yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddangos pwysigrwydd eu tirwedd ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr a bywyd gwyllt arall.

Rhagwelir y bydd y prosiect yma'n sicrhau gwell dealltwriaeth o ecoleg Llygoden Bengron y Dŵr yr ucheldir a fydd, yn y pen draw, yn arwain at ymdrech gadwraeth well, wedi'i thargedu'n well ar gyfer y Llygod Pengrwn y Dŵr sydd ar ôl yn ucheldir Cymru.

## Proffil y Rôl

Mae rôl y Swyddog Cadwraeth yn canolbwyntio ar weithio ochr yn ochr â staff presennol, sefydliadau partner, cymunedau lleol a gwirfoddolwyr mewn ardaloedd o amgylch rhannau uchaf cymoedd Afan, Nedd, Ogwr, Rhondda a Chynon. Er bod y prosiect yn canolbwyntio ar Lygod Pengrwn y Dŵr yn ucheldiroedd yr ardaloedd hyn, un o brif elfennau'r prosiect yw cysylltu cymunedau lleol y cymoedd yn well â'u tirwedd ucheldirol a'u bywyd gwyllt. Mae'r prosiect a'r rôl yn cael effeithiau mewnol ac allanol sylweddol ar gyflawniad ac enw da'r sefydliad.

---

## Prif Gyfrifoldebau

---

### Cyflwyno'r Prosiect

- Datblygu a hwyluso prosiectau ymchwil gwyddonol i boblogaethau ucheldirol Llygod Pengrwn y Dŵr yn ardal y prosiect.
- Cynnal digwyddiadau am Lygod Pengrwn y Dŵr / bywyd gwyllt lleol, gan gynnwys teithiau tywys, grwpiau ymchwil gwirfoddol, hyfforddiant, arolygon a dyddiau gwybodaeth.
- Goruchwylio, cefnogi ac arolygu sefydliadau academaidd a myfyrwyr sy'n ymwneud â'r prosiect gyda'u hymchwil a'u gwaith maes lle mae'n ymwneud â gwell dealltwriaeth o ecoleg Llygod Pengrwn y Dŵr yr ucheldir.
- Cefnogi myfyrwyr, gwirfoddolwyr a lleoliadau i ymgymryd ag ymchwil, cyfathrebu a chael profiad o'r sector cadwraeth natur.
- Gweithio gyda staff a gwirfoddolwyr i gynnal arolygon rhywogaethau a mapio cynefinoedd ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr yn yr ucheldir.
- Recriwtio ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr allweddol a chyfranogwyr cymunedol i ddysgu am Lygod Pengrwn y Dŵr, eu cynefin, a'r dirwedd.
- Cynorthwyo swyddogion INCC wrth gynnal cyrsiau hyfforddi cadwraeth a rheoli cynefinoedd Llygod Pengrwn y Dŵr ar gyfer gwirfoddolwyr cymunedol, ysgolion, perchnogion tir, myfyrwyr a'r sector cadwraeth natur ehangach yn y dirwedd.
- Cynorthwyo INCC i ddatblygu cyfathrebu priodol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ardal y prosiect ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr a bywyd gwyllt arall, a'r hyn y gall trigolion a chymunedau ei wneud i helpu.
- Ymgysylltu â pherchnogion tir / porwyr yn ardal y prosiect i annog creu ac adfer a rheoli cynefinoedd yn ogystal â Rheoli'r Minc Americanaidd.
- Cyfrannu at waith arall y sefydliad pan fo angen.

## Gwaith Partneriaeth

- Ymgysylltu â phartneriaid, gwirfoddolwyr, perchnogion tir, cefnogwyr a chyllidwyr sy'n ymwneud â'r prosiect a'u diweddarau'n rheolaidd.
- Mynychu cyfarfodydd partneriaeth.

## Cyfathrebu

- Helpu i godi proffil INCC, y prosiect a'i ganlyniadau drwy negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, erthyglau ysgrifenedig, datganiadau i'r wasg a chyfryngau addas eraill.
- Gweithio gyda rheolwr prosiect a phartneriaid i hyrwyddo cadwraeth natur yn lleol ac ar draws y gwahanol gymunedau yn y dirwedd.
- Cynnal teithiau tywys, sgysrsiau, digwyddiadau, gweithgareddau, arolygon a hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr a chyfranogwyr cymunedol.

---

## Manyleb Bersonol

---

### Profiad

*Rydym yn gwerthfawrogi y gall fod yn annhebygol y bydd ymgeisydd yn bodloni'r holl ofynion a restrir isod.*

- Profiad o weithio neu wirfoddoli yn y sector cadwraeth natur yng Nghymru.
- Gwybodaeth am Lygod Pengrwn y Dŵr gan gynnwys eu gofynion ecolegol, y bygythiadau maen nhw'n eu hwynebu, a'r camau cadwraeth sydd eu hangen.
- Profiad o gynnal ymchwil academiaidd a bod yn rhan o ymchwil maes a chasglu data.
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr, myfyrwyr a grwpiau cymunedol.
- Profiad o gynnal digwyddiadau cymunedol / gwirfoddoli, gweithgareddau a siarad cyhoeddus.
- Profiad o ysgrifennu datganiadau i'r wasg ac erthyglau.
- Profiad o gyfathrebu gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.
- Gwybodaeth am ardal y prosiect (cyrion uchaf cymoedd Afan, Nedd, Ogwr, Rhondda a Chynon), ei bywyd gwyllt a'r chymunedau.

### Sgiliau a Galluoedd

*Rydym yn gwerthfawrogi y gall fod yn annhebygol y bydd ymgeisydd yn bodloni'r holl ofynion a restrir isod.*

- Diwyd a threfnus.

- Rhaid gallu gweithio'n annibynnol ar adegau, gan reoli eich rhaglen waith eich hun a'ch canlyniadau cyflawni.
- Cydweithredwr naturiol gyda sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol a'r gallu i feithrin perthnasoedd ar draws gwahanol gymunedau.
- Y gallu i rymuso ac ysbrydoli pobl i weithredu dros fywyd gwylt a chadwraeth natur.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog.
- Rhaid bod â'r gallu i deithio i wahanol leoliadau ar draws ardal y prosiect.
- Parodrwydd i ddysgu.
- Corfforol heini i wneud gwaith mewn cynefinoedd ucheldirol anghysbell.
- Sgiliau trefnu personol rhagorol gyda rheolaeth ragorol ar amser a'r gallu i flaenoriaethu'n effeithiol a chydlynu eraill.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion cadwraeth lleol a chenedlaethol a dulliau gweithredu gyda chadwraeth natur.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg mewn cyfathrebu.
- Siaradwr Cymraeg neu ddysgwr Cymraeg.